Y STRATEGAETH DROSEDDAU

ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Gorffennaf 2007

Y CEFNDIR

Y Cyd-destun

Mae troseddau wedi gostwng yn arwyddocaol er 1995. Mae Arolwg Troseddau Prydain (BCS) yn dangos bod troseddau wedi gostwng ryw un rhan o dair er 1997, a bod y perygl o ddioddef troseddau wedi cyrraedd y lefelau isaf erioed. Ac eto i gyd, er gwaethaf y gostyngiadau hyn, allwn ni ddim llaesu dwylo. Mae cyflymder y gostyngiadau hyn naill ai wedi arafu neu wedi dechrau gwastatáu ac felly mae angen ymagwedd newydd er mwyn sicrhau bod y gostyngiadau'n parhau.

Nodau ac Amcanion

Bydd y strategaeth droseddau newydd yn dechrau ar gyfnod newydd o fynd i'r afael â throseddau. Bydd yn ymdrin â chyfnod y Cytundeb Gwasanaethau Cyhoeddus (PSA) newydd (2008/09–2010/11), ac mae'n amlinellu ymagwedd newydd at fynd i'r afael â throseddau a'r niwed sy'n cael ei achosi gan droseddau. Mae'r strategaeth yn weledigaeth gyffredinol sy'n dwyn ynghyd nifer o bolisïau ac ymagweddau ar draws y rhychwant troseddau. Mae'n arddel ymagwedd gyfannol at droseddau, gan osod mwy o bwyslais ar yr ymatebion a'r ffactorau sy'n gyfferdin i fathau o droseddau. Mae yna feysydd newydd i ganolbwyntio arnyn nhw, ond un o negeseuon allweddol y strategaeth yw gweithio'n fwy deallus o fewn y polisïau a'r pwerau presennol er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau, a hynny er mwyn lleihau troseddau a gwella diogelwch cymunedau.

Bydd gwireddu'r strategaeth droseddau yn golygu sicrhau cysylltiadau go iawn rhwng y partneriaid gweithredol lleol, er mwyn dod o hyd i'r meysydd lle byddan nhw'n gwneud ymdrech benodol i sicrhau gwell diogelwch cymunedol i adlewyrchu'r blaenoriaethau lleol. Bydd yr ymagwedd hon yn caniatáu hyblygrwydd i'r partneriaid gweithredol o ran pa broblemau troseddol sydd bwysicaf i'r cyhoedd, a bydd yn atgyfnerthu'r ffaith mai'r partneriaid gweithredol lleol sy'n fwyaf ymwybodol o'r troseddau hynny ac sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â nhw pan fydd yr atebion i wahanol fathau o droseddau yn gorgyffwrdd.

I ychwanegu gwerth at yr ymagwedd newydd, bydd y Llywodraeth Ganolog yn mynd i'r afael â chymhellion isorweddol troseddau ac yn hoelio sylw ar ddeilliannau, gyda llai o dargedau gorfodol wedi'u pennu gan y canol. Bydd y Llywodraeth yn gweithio i sicrhau bod y mesurau perfformiad yn gyson ar draws yr holl bartneriaid gweithredol, fel na fydd y partneriaid gweithredol yn cael eu tynnu i wahanol gyfeiriadau gan flaenoriaethau cyferbyniol. Bydd hyn yn cynnwys symleiddio ac integreiddio asesiadau perfformiad yr heddlu, y CDRPs/CSPs a'r Timau Gweithredu ar Gyffuriau, a chysoni'r fframwaith perfformiad sengl ar gyfer yr heddlu a diogelwch cymunedol â'r rhai ar gyfer awdurdodau lleol, a Chytundebau Ardal Leol.

Bydd y strategaeth newydd yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu ar y mannau a'r troseddwyr sy'n cael yr effaith fwyaf ar leihau troseddau a'r niwed a achosir ganddyn nhw, ar y dioddefwyr sydd yn y perygl mwyaf, ac ar y camau a'r rhaglenni sy'n fwyaf effeithiol. Mae hyn

yn golygu cynnwys amrediad eang o bartneriaid i sicrhau bod adnoddau cyfun gwahanol sefydliadau yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl. Mae hefyd yn golygu annog dinasyddion a'u grymuso i fynd ati i atal troseddau.

Yn ogystal ag atebion ymarferol i leihau troseddau, mae'r strategaeth newydd yn ceisio cynyddu hyder y cyhoedd yn yr asiantaethau, drwy gael yr asiantaethau gweithredol i ymwneud yn ehangach â'r cyhoedd, a thrwy drefnu bod mwy o wybodaeth am droseddau lleol ar gael. Hefyd, yn genedlaethol ac yn lleol, mae angen ymagwedd wedi'i thargedu er mwyn taro cydbwysedd rhwng lleihau ofn anghymesur ymhlith grwpiau hawdd eu niweidio (e.e. pobl oedrannus) ac annog y cyhoedd i fod yn wyliadwrus er mwyn atal troseddau (e.e. cloi drysau, codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc eu bod yn agored i droseddau treisiol ar ôl yfed alcohol).

Rhychwant gwaith yr EIA

Mae rhychwant yr EIA hwn yn edrych ar y Strategaeth Droseddau yn ei chrynswth yn hytrach nag edrych ar bob polisi unigol ynddi. Mae'r mwyafrif o'r polisïau hyn yn bod eisoes ac felly fe fydd asesiad effaith wedi'i wneud ar eu cyfer ac mewn llawer o'r achosion maen nhw'n barod i'w hailasesu o fewn y flwyddyn nesaf. Mae'r ddogfen hon yn amlygu'r meysydd hynny sydd wedi'u hasesu yn barod fel rhan o'r polisïau a'r ddeddfwriaeth bresennol ond mae hefyd yn amlygu rhannau o'r strategaeth a allai greu goblygiadau ar gyfer cydraddoldeb, gan bwyntio at gamau i'w cymryd yn y dyfodol o ganlyniad iddi. Caiff rhai strategaethau penodol newydd eu cyhoeddi yn sgil y strategaeth gyffredinol hon. Ceir asesiadau unigol o'r effaith ar gydraddoldeb i gyd-fynd â'r rhain.

Y FETHODOLEG

Yr ymagwedd at gasglu tystiolaeth

Mae troseddau yn ymestyn dros rychwant eang, o rai mathau o ymddygiad gwrthgymdeithasol i frawychiaeth ryngwladol. Mae yna amrediad eang o bolisïau ac arferion ar waith y gwyddom eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar leihau troseddau ac at ei gilydd tystiolaeth o'r rhain sydd wedi'i defnyddio i gasglu'r data yr oedd eu hangen ar gyfer yr asesiad hwn. Mae'n werth ail-bwysleisio nad yw'r ddogfen hon yn bwriadu asesu effaith pob ffrwd unigol ar gydraddoldeb. Yr hyn y ceisir ei wneud yw dangos ble mae asesiadau wedi'u gwneud eisoes pan gafodd polisi ei ddatblygu, ac amlygu'r rhannau o'r strategaeth a allai greu goblygiadau ar gyfer cydraddoldeb ac a fydd felly yn cael eu hasesu'n llawn maes o law.

Yn ychwanegol at y dystiolaeth sydd wedi'i chasglu ar sail y polisïau presennol, mae yna arolygon sy'n manylu ar brofiad ac argraff y cyhoedd o droseddau a'r system cyfiawnder troseddol sydd hefyd wedi cael eu defnyddio yn rhan o'r ymarfer asesu;

- Arolwg Troseddau Prydain 2006/07
- Policing and the criminal justice system – public confidence and perceptions: findings from the 2004/05 British Crime Survey

- Arolwg Dinasyddiaeth 2005
- Statistics on Race and the Criminal Justice System - 2005
- Y Comisiwn Hawliau Anabledd – 'The Disability Agenda; Building stronger, safer communities.' 2007
- Y Cyngor Henoed: Survey of Fear of Street Crime amongst Older People – 2002
- UK Study of Abuse and Neglect of Older People; Prevalence Survey Report 2007
- All Party Parliamentary Inquiry into Anti-Semitism: The Government's Response 2006
- Hate Crime: Delivering a Quality Service – Good practice and Tactical Guidance - 2005

Ein hymagwedd olaf at asesu oedd cysylltu â nifer o sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau lleiafrifol, neu'n eu cynrychioli, er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ac ychwanegu gwerth at yr asesiad; mae manylion y rhai yr ymgynghorwyd â nhw wedi'u nodi yn yr adran o'r adroddiad hwn ar *Ymgynghori ac Ymgysylltu*.

Canlyniadau ystyried y dystiolaeth bresennol

Yn gyffredinol, rydym yn gwybod bod troseddau yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau gwahanol o bobl. Mae'r dystiolaeth bresennol yn dangos y canlynol:

Lleoliad Daearyddol:

Mae'r ystadegau troseddau[1] yn dangos nad yw troseddau wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws Cymru a Lloegr. Er bod patrymau a chrynodiadau daearyddol yn amrywio ar draws y mathau o droseddau, mae'r cyfraddau troseddu yn tueddu i fod yn uwch mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd difreintiedig. Er enghraifft, dangosodd BCS 2006/07 fod pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn debycach o ddioddef troseddau na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig. Roedd y perygl o ddioddef troseddau yn uwch na'r cyfartaledd

[1] Y Swyddfa Gartref (2007) Crime in England and Wales 2006/07, Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 11/07

cenedlaethol yn ardaloedd 'dan wasgfa' a 'ffyniant trefol' ACORN[2]. Er enghraifft, roedd 10% o'r aelwydydd yn yr ardaloedd hyn wedi dioddef lladrad cerbydau yn BCS 2006/07, o'u cymharu â 7% o'r aelwydydd yn genedlaethol. Ar y llaw arall, roedd y perygl o ddioddef troseddau yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn yr ardaloedd 'llwyddiant cyfoethog'.

Dangosodd BCS 2006/07 hefyd fod cyfran uwch o bobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn poeni'n fwy am fyrgleriaeth, troseddau ceir neu droseddau treisiol o'i chymharu â'r gyfran mewn ardaloedd gwledig. Er enghraifft, roedd gan 19% o bobl mewn ardaloedd trefol lefel ofidio uchel ynglŷn â throseddau treisiol, o'u cymharu â 10% o bobl mewn ardaloedd trefol. Yn gyffredinol, roedd gan 20% o'r bobl a oedd yn byw mewn ardaloedd 'dan wasgfa' lefel uchel o ofid ynghylch troseddau ceir, o'u cymharu â 13% yn genedlaethol, tra oedd 31% o'r bobl a oedd yn byw mewn ardaloedd 'dan wasgfa' yn credu bod yna lefel uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal nhw o'i chymharu â chyfartaledd o 18%.

Dangosodd BCS 2006/07 fod yr argraffiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) yn dilyn yr un patrwm. Er enghraifft, roedd 20% o'r bobl a oedd yn byw mewn ardaloedd trefol yn credu bod lefel uchel o ASB yn eu hardal nhw o'u cymharu ag 8% mewn ardaloedd gwledig.

Hil:

Ar ôl cymryd oed i ystyriaeth, mae Arolwg Troseddau Prydain yn dangos nad oes gwahaniaeth mewn cyfraddau fictimeiddio. Serch hynny, mae gan grwpiau ethnig lleiafrifol gyfraddau uwch o ofn neu ofid am droseddau. Mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod gan bobl mewn grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig lefelau gofid uwch ynghylch troseddau na phobl wyn.[3] Mae BCS 2006/07 yn dangos bod pobl o grwpiau heblaw gwyn ddwywaith yn debycach, ar y cyfan, o fod â lefelau gofid uchel ynghylch byrgleriaeth, troseddau cerbydau a throseddau treisiol na'r rhai o grwpiau ethnig gwyn.

Er hynny, mae angen inni fod yn ymwybodol bod yna fathau penodol o droseddau y mae grwpiau ethnig lleiafrifol yn eu dioddef y mae angen ymateb clir iddynt. Er enghraifft, mae grwpiau ethnig lleiafrifol yn dioddef troseddau casineb sydd wedi'u sbarduno gan hil:

- Ar sail yr Arolwg Dinasyddiaeth (2005) roedd ymatebwyr o leiafrifoedd ethnig gryn dipyn yn debycach nag ymatebwyr gwyn o ddweud eu bod yn gofidio am ddioddef ymosodiad corfforol oherwydd lliw eu croen, eu tarddiad ethnig neu eu crefydd: dywedodd 20% eu bod yn gofidio o'u cymharu â 4% o bobl wyn.

[2] ACORN: Dosbarthiad Cymdogaethau Preswyl, sy'n grwpio aelwydydd yn ôl nodweddion demograffig, nodweddion cyflogaeth a nodweddion tai yr ardal gylchynol.

[3] Jonathan Allen (2004) Worry about crime in England and Wales: findings from the 2003/04 and 2004/05 British Crime Survey,Adroddiad ar-lein gan y Swyddfa Gartref 15/06.

- Roedd 20% o bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn 'ofidus iawn' am ddioddef ymosodiad oherwydd lliw eu croen, eu tarddiad ethnig neu eu crefydd o'u cymharu â 4% o bobl wyn. Ar y llaw arall, doedd hanner y bobl wyn (50%) ddim yn gofidio o gwbl ynghylch dioddef ymosodiad am y rhesymau hyn, o'i gymharu ag 16% yn unig o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Er hynny, ochr yn ochr â hyn ceir pryder a fydd grwpiau ethnig lleiafrifol yn cael triniaeth deg gan yr heddlu: ymatebwyr o leiafrifoedd ethnig oedd fwyaf tebygol o ddisgwyl cael eu trin yn waeth na hiliau eraill (24%) o'u cymharu ag unrhyw sefydliad arall. Yn ôl 'Policing and the criminal justice system - public confidence and perceptions: findings from the 2004/05 British Crime Survey', roedd pobl wyn yn debycach o fod yn hyderus bod y system cyfiawnder troseddol yn parchu hawliau pobl a gyhuddid o gyflawni trosedd a'u trin yn deg na grwpiau cymysg a grwpiau BME.

Yn olaf, mae angen hefyd inni gydnabod bod y system cyfiawnder troseddol yn dal i gynnwys anghymesuroldeb:

- Roedd pobl o gefndir cymysg, Asiaidd neu ddu yn debycach na'r rhai mewn grwpiau ethnig eraill o gael eu stopio gan yr heddlu (16%, 13% a 15% yn y drefn honno). Mae hyn yn cymharu â 9% o bobl wyn a 6% o bobl Tsieineaidd a grwpiau ethnig eraill. Roedd pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn debycach o ddweud eu bod yn teimlo'n annifyr na phobl wyn (17% o'u cymharu â 7%).

- O'r 839,977 o enghreifftiau o stopio a chwilio a gofnodwyd gan yr heddlu yn 2004/5, mae'r adroddiad 'Statistics on Race and the Criminal Justice System - 2005' yn dweud wrthon ni mai pobl ddu oedd 14%, pobl Asiaidd oedd 7% a phobl o darddiad ethnig 'arall' oedd 1.5%. Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i ddweud bod pobl ddu, o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, dair gwaith yn debycach o gael eu harestio na phobl wyn.

Ffydd:

Mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio ar hyn o bryd i nodi a oes yna gyfraddau fictimeiddio gwahanol yn ôl ffydd. Er hynny, fel grwpiau ethnig lleiafrifol, mae yna fathau o fictimeiddio yn erbyn grwpiau ffydd ar sail eu credoau. Ar hyn o bryd, cyfyngedig yw'r data sydd ar gael am droseddau yn erbyn pobl ar sail eu ffydd, ond gwyddom fod 2% o'r ymosodiadau heb anaf a gofnodwyd yn genedlaethol gan yr heddlu yn 2006/07 wedi'u gwaethygu'n hiliol neu'n grefyddol a bod 11% o'r 257,327 o droseddau aflonyddu wedi cael eu gwaethygu ar sail hil neu grefydd.

Erbyn hyn, mae'r Heddlu Metropolitanaidd wedi dechrau cofnodi data am droseddau sydd wedi'u sbarduno gan gasineb ar sail ffydd. Hefyd, fel y dywedwyd yn ei hymateb i'r Ymchwiliad Seneddol Pob Plaid i Wrth-semitiaeth, mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r heddluoedd i ddod o hyd i ffyrdd gwell a mwy cyson i gasglu a rheoli data am droseddau casineb, gan gynnwys digwyddiadau a throseddau gwrth-semitig. Dylai hyn fod ar gael erbyn 2008-09.

Rhywedd:
Mae un o'r gwahaniaethau cliriaf mewn cyfraddau fictimeiddio rhwng dynion a menywod yn ymwneud â thrais. O safbwynt trais domestig:

- Mae Trais Domestig yn drosedd treisiol difrifol sy'n cyfrif am 16% o'r holl ddigwyddiadau treisiol ac mae un digwyddiad yn cael ei hysbysu i'r heddlu bob munud. Mae rhyw un ym mhob pedair menyw ac un ym mhob chwech o ddynion wedi dioddef trais domestig ers eu 16 oed.[4]

- Mae 89% o'r rhai sy'n dioddef pedwar neu fwy o ymosodiadau yn fenywod ac roedd menywod yn debycach o ddioddef anafiadau gwaeth a chael eu dosbarthu fel dioddefwyr cronig.[5] Ar gyfartaledd, mae dwy fenyw bob wythnos yn cael eu lladd gan bartner neu gynbartner.[6]

Mae dynion ifanc yn llawer tebycach o ddioddef trais dan law dieithryn.

Mae yna wahaniaethau o ran argraffiadau hefyd:

- Mae BCS 2006/07 yn dangos inni fod menywod yn debycach na dynion o feddwl bod y gyfradd droseddau wedi cynyddu lawer yn y ddwy flynedd diwethaf ar gyfer y wlad gyfan (37% a 29% yn y drefn honno)

- Mae BCS 2006/07 yn dweud wrthon ni fod menywod fwy na dwywaith yn debycach na dynion, ar gyfer pob grŵp oedran, o ofidio am droseddau treisiol ac roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y grwpiau oedran ifanc; ymhlith y rhai 16-24 oed roedd gan 30% o'r menywod lefelau uchel o ofid o'i gymharu â 13% o ddynion.

Cyfeiriadedd Rhywiol:
Fel yn achos troseddau sy'n gysylltiedig â ffydd, rydym yn ymchwilio ar hyn o bryd i lefelau fictimeiddio yn ôl cyfeiriadedd rhywiol. Er hynny, mae gwaith wedi'i ddechrau i geisio gweld a all lefelau fictimeiddio gael eu mesur drwy gyfrwng arolygon.

---

[4] Walby, S. ac Allen, J. (2004) Domestic Violence, sexual assault and stalking: Findings from the British Crime Survey. Astudiaeth Ymchwil y Swyddfa Gartref Rhif 276. Llundain: Y Swyddfa Gartref

[5] Walby, S. ac Allen, J. (2004) Domestic Violence, sexual assault and stalking: Findings from the British Crime Survey. Astudiaeth Ymchwil y Swyddfa Gartref Rhif 276. Llundain: Y Swyddfa Gartref

[6] Coleman, K. , Hird, C., a Povey, D. (2006) Violent Crime Overview, Homicide and Gun Crime 2004/05 (Cyfrol Atodol i Crime in England and Wales 2004/05). Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 02/06.

Mae'r heddlu yn amcangyfrif nad yw cymaint â 90% o droseddau homoffobig yn cael eu hysbysu i'r heddlu (ffynhonnell: Hate Crime: Delivering a Quality Service) a hynny am fod ar y dioddefwyr ormod o ofn neu gywilydd i adael i rywun wybod.

Oed:
Mae 'Public confidence and perceptions: findings from the 2004/05 British Crime Survey' yn dangos inni fod hyder yn y system cyfiawnder troseddol yn uwch ymhlith pobl ifanc (16-24 oed) ar gyfer pob mesur ac eithrio hyder bod y system cyfiawnder troseddol yn parchu hawliau pobl sy'n cael eu cyhuddo o gyflawni trosedd, a hynny er bod bron pedair rhan o bump (78%) o'r cyhoedd yn hyderus bod y system cyfiawnder troseddol yn parchu hawliau pobl sydd wedi'u cyhuddo o gyflawni trosedd a'i bod yn eu trin yn deg.

Dywedodd 10% o oedolion eu bod wedi'u stopio gan yr heddlu tra oedden nhw mewn cerbyd ac roedd 3% wedi'u stopio wrth gerdded. Roedd dynion ifanc 16-24 oed yn arbennig o debyg o fod wedi'u stopio gan yr heddlu.

BCS 2006/07 - Yn gyffredinol, roedd grwpiau oedran hŷn yn debycach na grwpiau oedran iau o feddwl bod y gyfradd droseddau yn y wlad yn ei chrynswth wedi codi lawer yn y ddwy flynedd blaenorol. Er enghraifft, roedd 49% o fenywod 65 i 74 oed a 46% o'r rhai 75 a throsodd yn credu bod lefelau troseddau wedi codi lawer o'u cymharu â 23% o fenywod 16 i 24 oed.

Mae lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol tybiedig yn gostwng gydag oedran. Roedd dynion a menywod 16 i 24 oed gryn dipyn yn debycach o gredu bod yna lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol nag unrhyw grŵp oedran arall (21% a 29% yn y drefn honno). Y rhai 75 oed a throsodd oedd lleiaf tebyg o gredu bod y lefelau'n uchel (6% o ddynion a 5% o fenywod).

Canfu arolwg yn 2002 gan y Cyngor Henoed, sef Fear of Street Crime among Older People, fod ymdeimlad o fod yn agored i niwed yn cynyddu gydag oedran. Tanlinellodd yr adroddiad a gomisiynwyd gan Comic Relief a'r Adran Iechyd, 'UK Study of Abuse and Neglect of Older People; Prevalence Survey report', fod angen gwneud mwy i ddiogelu pobl hŷn, hawdd eu niweidio. Dangosodd yr adroddiad fod 2.6% o bob 66 oed a throsodd yn byw ar aelwydydd preifat yn dweud eu bod wedi cael profiad o gamdriniaeth a oedd yn cynnwys aelod o'r teulu, cyfaill agos neu weithiwr gofal yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hynny'n gyfystyr â rhyw 227,000 o bobl 66 a throsodd yn y DU a gafodd eu hesgeuluso neu eu cam-drin yn y flwyddyn flaenorol.

Anabledd:
Oherwydd problemau methodoleg, mae'n anodd darganfod a oes unrhyw wahaniaethau yn y cyfraddau fictimeiddio. Er hynny, mae yna ddata am argraffiadau ar gael. Yn ôl 'Policing and the criminal justice system - public confidence and perceptions: findings from the 2004/05 British Crime Survey', roedd hyder yn y system cyfiawnder troseddol yn uwch ymhlith y rhai sydd heb anabledd neu salwch nag ymhlith y rhai a ddywedodd fod ganddynt anabledd neu salwch cyfyngol, a hynny ar gyfer pob agwedd ar y system cyfiawnder troseddol.

Mae ymchwil gan Mencap[7] yn dangos bod naw o bob deg o bobl sydd ag anableddau dysgu yn dweud bod aflonyddu yn nodwedd ar eu bywyd beunyddiol. Ac yn eu dogfen 'Building stronger, safer communities' mae'r Comisiwn Hawliau Anabledd yn datgan bod yna gonsensws yn y system cyfiawnder troseddol mai blaenoriaeth a buddsoddiadau isel sy'n cael eu rhoi i gyfiawnder i bobl anabl ar hyn o bryd.

Grwpiau eraill yn ôl y sefyllfa gymdeithasol:
Yn ôl BCS 2006/07, roedd argraffiadau pobl o'r gyfradd droseddau yn genedlaethol yn amrywio gryn dipyn yn ôl lefel eu haddysg; roedd 45% o bobl heb gymwysterau addysgol yn credu bod troseddau yn y wlad wedi codi o'i gymharu â dim ond 23% o'r bobl oedd â gradd neu ddiploma fel eu cymhwyster uchaf.

Roedd y rhai a oedd yn byw yn y sector rhentu cymdeithasol (40%) a pherchnogion (33%) yn llawer tebycach na'r rhai a oedd yn byw yn y sector rhentu preifat (23%) o gredu bod yna gynnydd yn y gyfradd droseddau.

Roedd pobl a oedd yn byw mewn ardaloedd trefol ddwywaith yn debycach o gredu bod lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol na'r rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig (20% ac 8% yn y drefn honno). Roedd y rhai a oedd yn byw yn y sector rhentu cymdeithasol bron dwywaith yn debycach na'r rhai mewn cartrefi perchen-feddianwyr neu gartrefi rhentu preifat o gredu bod yna lefel uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol (31%, 15% a 18% yn y drefn honno).

Beth sy'n cael ei wneud i roi sylw i'r materion hyn?

Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r Llywodraeth wedi canolbwyntio llawer o ymdrech ar leihau amddifadedd cymdeithasol, lleihau troseddau, cynyddu cydlynedd cymunedau a gwella cyfleoedd bywyd er mwyn codi pobl allan o'r risg o droseddu. Gwelwyd gostyngiad o ryw draean mewn troseddau er 1997 ond mae yna heriau newydd i'w hateb. Bydd y strategaeth droseddau newydd yn adnewyddu ymdrechion i barhau i ostwng troseddau ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu ar y meysydd, y rhaglenni, y camau a'r troseddwyr a fydd yn sicrhau'r effaith fwyaf o ran lleihau troseddau a'r niwed sy'n cael ei beri gan droseddau.

Bydd y strategaeth newydd yn arddel ymagwedd gyfannol at droseddau, o ymyrryd yn gynnar i leihau ail-droseddu, gan hoelio sylw ar y troseddwr ac nid dim ond ar y trosedd. Drwy ganolbwyntio'n fwy ar wireddu blaenoriaethau lleol, caniateir mwy o ymgysylltu ag aelodau'r gymuned leol gyfan gan roi mwy o gyfle iddynt godi eu pryderon a nodi'n haws sut mae materion penodol yn effeithio arnyn nhw yn benodol.

Yn ogystal â'r ymagwedd newydd a nodir yn y strategaeth, mae nifer o bolisïau wedi'u sefydlu eisoes, neu wrthi'n cael eu datblygu i'w rhoi ar waith yn y dyfodol agos, sy'n ceisio gwella lefelau ymgysylltu â'r gymuned (gan gynnwys ymgysylltu'n well â grwpiau anodd eu cyrraedd), dileu

[7] MENCAP (1999) 'Living in Fear', MENCAP; Y Gymdeithas Sgitsoffrenia Genedlaethol (2001) 'Give Us A Break – Exploring harassment of peoples with mental health problems.'

cymhellion cymdeithasol troseddau a chynyddu hyder pobl yn y sefydliadau a'r systemau sydd ar gael i roi'r newid hwn ar waith; mae manylion rhai o'r rhain wedi'u nodi isod:

Plismona Cymdogaeth

Nod Plismona Cymdogaeth yw ymateb i anghenion amrediad amrywiol o unigolion a chymunedau. Syniad sy'n holl-bwysig ar gyfer Plismona Cymdogaeth yw'r syniad y bydd swyddogion cymdogaeth yn ymgysylltu â'r cymunedau lleol i ddeall y problemau sy'n effeithio arnyn nhw, er mwyn enwi blaenoriaethau'r gymdogaeth i'r heddlu, i'w partneriaid ac er mwyn i'r cyhoedd gymryd camau.

Nododd y Llywodraeth ei hymrwymiad yn y Papur Gwyn *Building Communities, Beating Crime* (Tach. 2004) i sicrhau y bydd pob ardal yng Nghymru a Lloegr yn elwa ar blismona cymdogaeth.

Pan fydd plismona cymdogaeth wedi'i gyflwyno'n llawn erbyn Ebrill 2008, bydd pob cymuned yng Nghymru a Lloegr ar eu hennill o gael timau heddlu cymdogaeth dynodedig, hygyrch a gweladwy; caiff y rhain eu harwain gan swyddogion heddlu a byddant yn cynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) a Chwnstabliaid Rhan-amser ac, yn ôl anghenion a blaenoriaethau'r gymdogaeth, cynghorwyr y ward lleol, wardeniaid, rheolwyr y gymdogaeth, rheolwyr tai, gweithwyr ieuenctid a chyrff gwirfoddol a chymunedol.

Mae Plismona Cymdogaeth yn golygu mwy na dim ond gwneud yr heddlu'n fwy gweladwy ar y stryd. Bydd yn rhoi tîm heddlu dynodedig i'r gymdogaeth a daw'r tîm hwnnw'n wynebau cyfarwydd a welir yn aml yn y gymuned. Y cyfarwyddineb hwn a'r gweledded hwn sy'n ennyn hyder ymhlith aelodau'r gymuned.

Mae Plismona Cymdogaeth yn ymwneud â gosod blaenoriaethau a phryderon cymunedau wrth galon y plismona lleol, ac mae'r dystiolaeth o waith ymchwil yn dangos bod dulliau plismona cymdogaeth yn mynd i'r afael â throseddau ac ag ofn troseddau, ac yn helpu i greu cymunedau sydd nid yn unig yn ddiogel, ond sy'n teimlo'n ddiogel. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- Cyflwynodd Tîm Cymunedol yn Grantham ddull monitro a chynnal diwrnod cydraddoldeb diwylliannol, i helpu i atal cynnwrf trefn gyhoeddus yn yr ardal ar ôl i weithwyr mudol gyrraedd yno. Diben y digwyddiad oedd ymgysylltu â'r rhanddeiliaid er mwyn sefydlu, er enghraifft, grŵp cymorth hil aml-asiantaeth a rhwydweithiau cymorth eraill, system 'rhybudd cynnar' ynglŷn â thyndra hiliol, a gwella ymateb y tîm cymunedol i droseddau hiliol a throseddau casineb.

- Yn Sussex, mae PCSO a fu'n gweithio gynt yn addysgu Saesneg yn ail iaith wedi gwneud cysylltiadau â'r coleg lleol i'w galluogi i sefydlu proses o osod blaenoriaethau ar gyfer y gweithwyr mudol yn ei hardal o'r enw Heddlu a Chymunedau Ynghyd.

Gwelodd arfarniad y Swyddfa Gartref o'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Plismona drwy Sicrwydd (NRPP) - a gynhaliwyd ar brawf mewn chwe dinas, bob un wedi'i chysylltu â safle cymharu - fod plismona cymdogaeth yn gallu sicrhau gwelliannau mewn troseddau, argraffiadau o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymdeimlad o ddiogelwch, a hyder y cyhoedd yn yr heddlu. Pan gyhoeddwyd yr arfarniad ym mis

Ionawr 2006,[8] gofynnodd yr ymarferwyr a oedd y gwelliannau a gafwyd o'r NRPP wedi'u profi gan drigolion gwyn a thrigolion BME. Mae rhagor o waith dadansoddi wedi'i wneud gan Adran Ymchwilio, Datblygu ac Ystadegau y Swyddfa Gartref ar y mater yn y deg safle NRPP heb safleoedd cymharu gan fod y rheiny'n cynnwys digon o grynodiad o drigolion BME, a chafodd yr ymchwil honno ei chyhoeddi ym mis Chwefror 2006.[9]

Mae'r arfarniad hefyd yn ategu ymagwedd at blismona sydd wedi'i seilio ar y gymdogaeth ac sy'n mynd y tu hwnt i'r mathau traddodiadol o ymgynghori (megis cyfarfodydd cyhoeddus) ac yn cynnwys dulliau mwy cynhwysol a rhagweithiol sy'n sicrhau amrediad eang o safbwyntiau cymunedol (e.e. curo ar ddrysau, briffiadau i strydoedd a 'dyddiau lleisio barn').

Safonau Cenedlaethol ar gyfer CDRPs/CSPs

Mwy o ymgysylltu rhwng y partneriaid gweithredol lleol ac, ar sail gyfun, â'r cymunedau lleol yw prif fyrdwn sicrhau gostyngiadau parhaus mewn troseddau. I helpu'r ymgysylltu hwn, rydym yn cyflwyno set o reoliadau, yn rhan o Raglen Diwygio'r CDRPs, a fydd yn sefydlu fframwaith o safonau gofynnol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar sail chwe phrif nodwedd partneriaeth effeithiol, a lunnir o amgylch rhwymedigaeth ar y CDRP i lunio a gweithredu strategaeth i roi sylw i broblemau troseddau, anhrefn a chamddefnyddio sylweddu yn eu hardal. Cafodd y ffactorau hyn eu datblygu yn ystod digwyddiadau i randdeiliaid dros haf 2006 fel y prif ffactorau a fydd yn helpu pob CDRP i wella'i berfformiad. Mae'r ffactorau fel a ganlyn:

- Arweinyddiaeth rymus ac effeithiol
- Prosesau busnes wedi'u seilio ar gudd-wybodaeth
- Strwythurau gweithredu effeithiol ac ymatebol
- Ymgysylltu cymunedol
- Atebolrwydd gweladwy ac adeiladol
- Sgiliau a gwybodaeth briodol

Mae'r Rheoliadau wrthi'n cael eu drafftio: bydd canllawiau ar sut i roi'r safonau newydd ar waith yn dilyn yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Yr hyn sy'n allweddol yn y safonau newydd hyn ar gyfer grwpiau lleiafrifol yw ei bod yn ofynnol i'r CDRPs sicrhau barn yr holl grwpiau allweddol, yn

[8] http://www.homeoffice.gov.uk/rds/pdfs06/r272.pdf
[9] http://www.homeoffice.gov.uk/rds/pdfs06/r272.pdf

enwedig y rhai yr effeithir arnynt yn fwyaf wrth weithredu'r cynllun partneriaeth, ar draws y gymuned leol gyfan wrth roi blaenoriaeth i'w hymdrechion i leihau troseddau a lleihau'r camddefnydd ar sylweddau.

Hyder yn y system cyfiawnder troseddol

Fel y dangosir gan y dystiolaeth y cyfeirir ati yn ***'Canlyniadau ystyried y dystiolaeth bresennol',*** mae llawer o grwpiau lleiafrifol heb hyder yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod hyn yn flaenoriaeth bwysig ac oherwydd hynny mae wedi dangos ei bod yn bwriadu rhoi sylw i hyn drwy ddatgan ei bod yn rhan greiddiol o'n cyfres gyfredol o PSAs. Mae'r PSA 2 cyfredol yn ceisio targedu er mwyn cysuro'r cyhoedd, gan leihau ofn troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ennyn hyder yn y system cyfiawnder troseddol heb gyfaddawdau ar degwch.

Ceir tair elfen yn elfen hyder y PSA hwn:

- Hyder yn y System Cyfiawnder Troseddol
- Argraffiadau pobl BME o driniaeth deg gan y system cyfiawnder troseddol
- Boddhad Dioddefwyr a Thystion

Mae rhaglen o waith ar y gweill i wella hyder yn y system cyfiawnder troseddol drwy wneud y canlynol:

- **Ymchwil**: er mwyn gwella'n dealltwriaeth o gymhellion hyder a'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â hyder, hefyd er mwyn gwella'n dealltwriaeth o droseddau, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd
- **Helpu i weithredu'n lleol**: sicrhau trefniadau cydlynol ar gyfer cynllunio a chyflawni ar lefel yr asiantaeth neu'r bartneriaeth leol, gan roi cymorth canolog ar gyfer gweithredu lleol
- **Ymgysylltu cymunedol**: sicrhau ymagwedd aml-asiantaeth at gynnwys y gymuned a rhoi sylw i bryderon lleol
- **Ymgysylltu â'r staff**: cynyddu dealltwriaeth y staff o'r system o un pen i'r llall ac o ddiwygio'r system cyfiawnder troseddol; a'u parodrwydd i weithredu fel lladmeryddion ar ran y system
- **Cyfathrebu**: cynyddu cydlynedd ac effeithiolrwydd negeseuon i'r cyhoedd am droseddau, anhrefn a chyfiawnder

Argraffiadau pobl o driniaeth deg gan y system cyfiawnder troseddol

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i adeiladu cymdeithas sydd â chyfleoedd i bawb. Rhan allweddol o hyn yw system cyfiawnder troseddol sy'n trin pob cymuned yn gydradd, y gwelir ei bod yn deg ac yn gynrychioliadol ac sy'n effeithiol wrth fynd i'r afael â throseddau hiliol. Mae camau aruthrol ymlaen wedi'u cymryd yn y blynyddoedd diweddar ond mae llawer i'w wneud o hyd a llawer wedi'i gynllunio:

Yr Heddlu: Ers mis Gorffennaf 2006, mae data ar gyfer pob llu wedi bod ar gael i ddangos lefelau boddhad yn ôl ethnigrwydd ac yn ôl y math o ddigwyddiad. Bydd y data hwn yn fodd i'r heddluoedd ddod o hyd i feysydd i wella arnynt. Bydd cyflwyno Plismona Cymdogaeth yn llawn a chyflwyno APACS yn gwneud llawer i newid argraffiadau pobl o'r heddlu.
Prawf: Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth prawf yn ymateb i anghenion troseddwyr BME, mae'r NPD wedi cefnogi a bydd yn parhau i gefnogi ac i arfarnu'r NPS wrth ddatblygu 'rhaglenni braenaru' i droseddwyr BME.
CPS: Bydd yn gwella'r cysylltiadau â sefydliadau a chymunedau BME fel rhan o weithredu strategaethau'r CPS ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau. Bydd hefyd yn cynnal asesiad cydraddoldeb ac asesiad amrywiaeth o effeithiau polisïau ac arferion allweddol a hynny mewn perthynas ag erlyn a chyflogi, gan weithredu ynglŷn ag unrhyw ganlyniadau arwyddocaol.
Carchardai: Byddant yn parhau i wneud cynnydd ar gydgynllun gweithredu y CRE - 'A Shared Agenda for Change' - ar draws yr ystâd, gan barhau i ddilyn Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Gwasanaeth Carchardai sydd newydd gael ei ddiwygio.
Y llysoedd: Bydd canlyniadau prosiect ymchwil sydd newydd ei gynnal ar foddhad defnyddwyr o grwpiau BME yn dangos a yw achosion anfodlonrwydd yn gysylltiedig naill ai â'r gwasanaeth a gafwyd, â ffactorau amrywiaeth eraill neu â'r swyddogaeth y maent wedi cael profiad o'r llys ynddi.
YJB: Bydd pob Tîm Troseddau Ieuenctid yn gwneud y canlynol:

• Datblygu cynlluniau gweithredu i gyrraedd y targed o leihau anghymesuredd.

• Sicrhau triniaeth gydradd ar y lefel leol ar gyfer troseddau tebyg gan wahanol grwpiau ethnig.

• Ymgymryd â gwaith atal, wedi'i dargedu, sy'n lleihau'n sylweddol ar wahaniaethau lleol yn ôl ethnigrwydd yn y cyfraddau euogfarnu a gofnodir, erbyn 2008.

• Cynnal gweithdai rhanbarthol er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i arferion da wrth iddynt ddod i'r amlwg, a'u lledaenu

<u>Boddhad dioddefwyr a thystion ar y system cyfiawnder troseddol</u>
Elfen holl-bwysig ar darged y Llywodraeth yn y PSA ar hyder y cyhoedd yw cynyddu boddhad dioddefwyr a thystion ar eu profiad o'r system cyfiawnder troseddol. Mae rhaglen o ddiwygiadau a gwelliannau wedi'i dechrau er mwyn helpu i gyrraedd y targed hwn, gan hoelio sylw ar sicrhau:

- Bod dioddefwyr a thystion yn cael gwybodaeth o ansawdd dda am y system cyfiawnder troseddol a chymorth arall ac am eu hachos eu hunain.

- Bod dioddefwyr a thystion yn cael gwasanaeth o safon uchel yn gyson gan staff y system cyfiawnder troseddol.
- Bod gwasanaethau perthnasol yn cael eu cynnig i ddioddefwyr a thystion y mae arnyn nhw angen cymorth ymarferol ac emosiynol.
- Bod barn dioddefwyr yn cael ei cheisio a'i defnyddio drwy gydol proses y system cyfiawnder troseddol.
- Bod anghenion tystion hawdd eu niweidio neu dystion sydd wedi'u bygwth yn cael eu gweld a'u bodloni, gan fynd i'r afael â bygythiadau i ddioddefwyr a thystion.
- Gwell profiad i ddioddefwyr a thystion sy'n mynd i'r llys.
- Bod anghenion dioddefwyr trais domestig yn cael eu bodloni, gan fynd i'r afael â fictimeiddio ailadroddus.

Deall yr effaith ar bobl sydd ag anabledd

Cyfyngedig yw'n gwybodaeth a'n tystiolaeth am effaith troseddau ar unigolion sydd ag anableddau a dyma rywbeth yr ydym wrthi'n ceisio'i gywiro. Rydym yn ymwneud yn fwy â sefydliadau sy'n cynrychioli unigolion sydd ag anableddau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o effeithiau troseddau ar y grŵp lleiafrifol arbennig hwn ac o'u hanghenion; fel cam cyntaf rydym wedi cyfarfod â'r sefydliadau anabledd a gyfrannodd at yr asesiad effaith hwn.

Yn ychwanegol at gynyddu'n hymwneud fel hyn, rydym wrthi'n ystyried sut i weithredu ar argymhelliad yr adolygiad annibynnol, adolygiad Smith[10], y dylid estyn ffrâm samplu'r BCS er mwyn cynnwys pobl sy'n byw mewn preswylfeydd i grwpiau.

Gan fod y data a gesglir ar gyfer y BCS yn cael ei gasglu wyneb yn wyneb, mae'n bosibl i lawer o bobl ag anableddau gymryd rhan, ac fe fydd llawer yn gwneud hynny. Er mwyn ychwanegu at y cyfle hwn, rydym yn bwriadu cynnwys sesiwn manwl ar ymwybyddiaeth o anabledd fel rhan o'r hyfforddiant a gaiff cyfwelwyr cyn cynnal cyfweliadau; dyma rywbeth y byddwn yn ei drafod yn fanylach gyda'r rhanddeiliaid.

Deall anghenion dioddefwyr a throseddwyr hŷn

Mae'r Adran Iechyd yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Gwella Gwasanaethau Gofal a chydweithwyr yn y tîm Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn Cyfiawnder Troseddol ar raglen i godi ymwybyddiaeth o ofal a thriniaeth troseddwyr hawdd eu niweidio, gan gynnwys carcharorion hŷn a charcharorion sydd ag anableddau. Maen nhw'n ceisio dechrau cofrestru carcharorion gyda meddygon teulu er mwyn gwella ar ddulliau rhannu gwybodaeth am iechyd o fewn ystâd y carchardai ac i helpu parhad gofal pan gaiff carcharorion eu rhyddhau. (Mae hyn o fantais i droseddwyr anabl, yn enwedig y rhai sydd ag anableddau dysgu a charcharorion hŷn. Mae'n gallu cael effaith arwyddocaol o ran lleihau ail-droseddu).

Mae'r gwaith yn parhau i sefydlu partneriaethau cryf rhwng y gwasanaeth carchardai lleol ac Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol i oedolion. Pan fydd hyn yn digwydd, mae yna fanteision clir o ran lleihau troseddau o fath

[10] http://www.homeoffice.gov.uk/rds/pdfs06/crime-statistics-independent-review-06.pdf

niwsans cymdeithasol a llwyddo i gadw cyn-droseddwyr yn y gymuned. Dylai'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer y CDRPs, yn enwedig ynglŷn â rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth, helpu yn hyn o beth.

Deddfwriaeth i atal troseddau casineb hiliol neu grefyddol

Fel rhan o Ddeddf Troseddau ac Anhrefn 1998, cyflwynodd y Llywodraeth naw trosedd newydd o waethygu hiliol. Mae'r troseddau hyn, sy'n cynnwys ymosod, difrod troseddol ac aflonyddu, yn cario cosbau uchaf trymach pan fydd yna dystiolaeth o elyniaeth hiliol mewn cysylltiad â'r trosedd.

Yn sgil digwyddiadau mis Medi 2001, roedd y Llywodraeth yn teimlo ei bod yn bwysig deddfu'n gyflym er mwyn diogelu'r rhai sydd mewn perygl o ymosodiadau neu sarhad oherwydd eu daliadau crefyddol. Oherwydd hynny, creodd Deddf Gwrth-frawychiaeth, Troseddau a Diogelwch 2001 droseddau newydd wedi'u gwaethygu ar sail crefydd. Mae'r rhain yn ymhelaethu ar y troseddau uchod a hynny drwy gynnig yr un amddiffyniad rhag trais i grwpiau crefyddol, megis Mwslimiaid a Christnogion, ag a oedd ar gael eisoes i grwpiau hiliol (sef grwpiau y mae'r llysoedd wedi dyfarnu eu bod yn cynnwys Iddewon a Siciaid). Mae'r troseddau newydd hyn yn cario'r un cosbau uchaf trymach â'r troseddau cyfatebol sydd wedi'u gwaethygu ar sail hil.

Yn ogystal, pan fo'r llys yn ystyried trosedd heblaw'r troseddau penodol a amlinellwyd uchod sydd wedi'u gwaethygu ar sail hil neu grefydd, ond lle ceir, serch hynny, dystiolaeth o elfen hiliol neu grefyddol wrth gyflawni'r troseddau, mae dedfrydwyr o dan ddyletswydd statudol 1) i farnu bod hyn yn ffactor gwaethygol sy'n haeddu dedfryd uwch a 2) i ddatgan yn y llys agored fod ffactor gwaethygol o'r fath yn bresennol.

Mae cyflwyno'r troseddau statudol hyn a darpariaethau eraill yn anfon neges glir bod gweithgarwch troseddol sydd wedi'i gymell ar sail hil a chrefydd yn annerbyniol ac na fydd yn cael ei oddef.

Monitro

Bydd monitro yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod y partneriaid gweithredol lleol yn targedu eu hadnoddau a'u hymdrechion er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl yn eu hardal. Er mwyn sicrhau bod y prosesau monitro sydd wedi'u sefydlu yn rhoi'r gefnogaeth orau posibl i'r strategaeth droseddau newydd, mae'r fframweithiau asesu perfformiad presennol ar gyfer diogelwch cymunedol yn cael eu hadolygu hefyd. Bydd yna un fframwaith ar gyfer asesu perfformiad ar ddiogelwch cymunedol - sef Asesiadau Plismona a Diogelwch Cymunedol (APACS), sy'n mireinio tri fframwaith yn un. Caiff APACS ei ddatblygu yn ystod 2007/08 i'w roi ar waith yn 2008/09.

I bob dangosydd yn APACS fe fydd yna bartneriaid penodol y cytunir y byddant yn gyfrifol amdano, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, ac ymddiriedolaethau gofal sylfaenol. Bydd y PSA ar gyfer Cymunedau Diogelach yn cael ei gynnwys fel dangosydd yn APACS. Bydd hefyd yn cynnwys cyfle i asesu deilliannau a nodir gan y partneriaethau fel blaenoriaethau lleol.

Ein nod yw cysoni APACS â'r fframwaith newydd hwn ar gyfer perfformiad yr awdurdodau lleol yn Lloegr. Bydd hynny'n sicrhau bod yr heddlu, yr awdurdodau lleol a'r partneriaid eraill i gyd yn gweithio tuag at yr un set o dargedau sydd wedi'u blaenoriaethu yn genedlaethol ac yn lleol, sef targedau y maen nhw'n gyd-atebol amdanynt.

Y bwriad yw defnyddio'r fframwaith i ddangos a yw'r gwasanaethau, ymhlith pethau eraill, yn deg. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cynnwys dangosyddion sy'n gysylltiedig â thegwch a chydraddoldeb. Yn hyn o beth, rydym yn llwyr o blaid yr ymrwymiad yn y Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol i gynnwys mesurau 'cydgyfeirio'.

YMGYNGHORI AC YMGYSYLLTU
Ymgysylltu â rhanddeiliaid/cymunedau wrth ddatblygu cynigion

Mae amrywiaeth mawr o randdeiliaid, gan gynnwys adrannau eraill o'r Llywodraeth, yr heddlu, partneriaid gweithredol lleol a sefydliadau gwirfoddol wedi'u cynnwys ar lefelau gwahanol wrth i'r strategaeth newydd hon gael ei datblygu. Mae'r partneriaid gweithredol allweddol wedi cael cyfleoedd i gyflwyno sylwadau ar ddrafftiau o'r strategaeth er mwyn sicrhau bod y ffyrdd newydd o weithio sy'n cael eu hawgrymu yn ymarferol mewn gwirionedd. Ar y cyfan, mae'r ymagwedd newydd at fynd i'r afael â throseddau a nodir yn y strategaeth newydd wedi ennyn croeso ar draws yr amrediad eang o randdeiliaid a fu'n rhan o'r broses.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch yn benodol i Respond, Voice UK, Ymddiriedolaeth Ann Craft, NACRO, Cymorth i Ddioddefwyr ac Ymddiriedolaeth Runnymede am eu cyfraniadau nhw at yr asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb.

Y sefydliadau a wahoddwyd i gyfrannu at broses yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb
1990 Trust
Cymdeithas Fawcett
Cymorth i Ddioddefwyr
Cynghrair Howard er Diwygio Cosbau
Cyngor Ymgynghorol y Cymunedau Ffydd
Mencap
NACRO
Press For Change
Respond
Stonewall
Voice UK
Y Cyngor Henoed
Ymddiriedolaeth Ann Craft
Ymddiriedolaeth Runnymede

ASESU A DADANSODDI
Canfyddiadau allweddol yr asesiad a'r ymgysylltu â'r gymuned

Wrth gynnal yr asesiad hwn, dadansoddwyd yr effaith ar wahaniaethau o fewn rhychwant y troseddau; ar yr ymagwedd o'r naill ben i'r llall at fynd i'r afael â throseddau a'r cymhellion trawsbynciol ac yn olaf ar y cyflwyno a'r galluogwyr. Mae'r tabl ar ddiwedd y ddogfen hon yn nodi canlyniad y gwaith dadansoddi hwn gan fanylu hefyd ar y sefyllfa gyfredol neu'r camau sydd i'w cymryd ym mhob maes.

Bwriadwyd i'r asesiad effaith hwn fanylu ar yr effaith bosibl ar gydraddoldeb yn yr holl wahanol ffrydiau gwaith yn y strategaeth droseddau, Yn amlach na pheidio mae hynny wedi'i gwblhau eisoes wrth i bob polisi unigol gael ei ddatblygu, ac mae'r tabl ar ddiwedd yr asesiad yn manylu ar hynny. Yr hyn y mae'r asesiad effaith hwn yn ceisio ei wneud yw cadarnhau'r hyn sydd wedi'i sefydlu eisoes gan danlinellu rhannau o'r strategaeth a allai greu goblygiadau ar gyfer cydraddoldeb ac a fydd felly yn destun asesiad llawn maes o law.

<u>Lleoliad Daearyddol ac Amddifadedd Cymdeithasol</u>
Rydym yn gwybod mai'r economi yw un o brif sbardunau troseddau a bod y dystiolaeth yn dangos bod troseddau'n gostwng pan fydd yr economi'n gwneud yn dda. Mae'n dilyn felly bod amddifadedd mewn cymunedau, anghydraddoldeb incwm ar sail cyflogaeth ac anfanteision sy'n gysylltiedig ag addysg, tai, y teulu ac iechyd yn creu sefyllfaoedd lle bydd troseddu'n ffynnu. Ategir hyn gan BCS 2006/07 sy'n cadarnhau bod y perygl o ddioddef troseddau yn amrywio'n ddaearyddol yn ôl lefel yr amddifadedd. Yn gyffredinol, mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig – a gwyddom fod lefelau uchel o gymunedau BME yn byw mewn ardaloedd felly – yn debycach o ddioddef troseddau na'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd llai difreintiedig.

Ac eto i gyd, mae'r amodau cymdeithasol y cyfeiriwyd atynt uchod yn bodoli i lawer o bobl hyd yn oed pan fydd yr economi'n gwneud yn dda. Mae'n deg dweud y bydd amgylchiadau sy'n anfanteisiol yn economaidd yn peri bod troseddau'n fwy o demtasiwn a/neu yn fwy derbyniol ymhlith cyfoedion. Er enghraifft, roedd 67% o garcharorion yn ddi-waith yn y pedair wythnos cyn cael eu carcharu, o'u cymharu â chyfradd ddiweithdra genedlaethol o ryw 5% yn y boblogaeth gyffredinol.[11]

Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r Llywodraeth wedi canolbwyntio llawer o ymdrech ar leihau amddifadedd cymdeithasol a gwella cyfleoedd bywyd er mwy codi pobl allan o'r perygl o droseddu. Mae mentrau fel Cychwyn Cadarn, Every Child Matters, Respect, gwaith aml-asiantaeth ar y lefel leol a chreu'r isafswm cyflog wedi llwyddo. Mae tlodi absoliwt wedi'i haneru, mae incwm wedi codi yn gyflymach i'r 20% tlotaf o'r boblogaeth nag i'r 20% cyfoethocaf, ac mae 800,000 o blant a miliwn o bensiynwyr wedi'u codi allan o dlodi cymharol.[12] Mae ymagwedd

[11] SEU (2002) Reducing re-offending by ex-prisoners, Llundain: HMSO

[12] Swyddfa'r Cabinet (2007)

ddiwygiedig y Llywodraeth at fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol wedi'i nodi yn nogfen Swyddfa'r Cabinet *'Reaching out: an action plan on social exclusion'*.

CASGLIAD

Rydym wedi dod i'r casgliad na chaiff y strategaeth newydd effaith andwyol ar yr un grŵp yn y gymdeithas ond yn hytrach y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar bawb, ac yn enwedig ar y grwpiau lleiafrifol hynny sydd, am ba reswm bynnag - boed lleoliad daearyddol, lefel cyrhaeddiad addysgol neu statws cyflogaeth - yn dioddef effeithiau troseddau mewn ffordd anghymesur. Mae rhai polisïau wedi'u sefydlu yn barod, yn unol â'r manylion yn yr adran *'Beth sy'n cael ei wneud i roi sylw i'r materion hyn?*' a fydd, er eu bod wedi'u targedu ar y gymuned gyfan, yn cael effaith gadarnhaol ychwanegol ar y grwpiau hyn. Bydd canolbwyntio ar weithredu yn lleol a gweithio mewn partneriaethau lleol yn sicrhau mwy o ymgysylltu â'r grwpiau hyn ac yn caniatáu i'w hanghenion gael eu bodloni'n haws ac yn caniatáu iddynt gael gwell mynediad i bartneriaid gweithredol lleol perthnasol.

Yr ystyriaeth i'r Llywodraeth a'r partneriaid gweithredol lleol yw parhau i roi sylw i'r holl faterion sy'n effeithio ar gymunedau lleol, mewn ffyrdd newydd ac arloesol er mwyn gwella cyfleoedd pobl mewn bywyd a'r cyfleoedd i gymryd rhan yn llawnach yn eu cymuned leol a'r gymdeithas yn ehangach. O ran gweithredu, mae'r strategaeth droseddau newydd hon yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r blaenoriaethau lleol, ac mewn ardaloedd difreintiedig iawn bydd hyn yn golygu rhoi sylw i faterion cymdeithasol eraill sy'n effeithio ar droseddu, megis cyflogaeth, y cyfle i gael nwyddau a gwasanaethau a chamddefnyddio alcohol a chyffuriau.

Mae'r tabl isod yn nodi'r camau nesaf ar gyfer y polisïau perthynol sy'n rhan o'r Strategaeth Droseddau. Y strategaeth ei hun yw'r ddogfen gyntaf, lefel-uchel, sy'n nodi ymagwedd newydd y Llywodraeth at leihau troseddau; caiff ei dilyn yn yr hydref drwy gyhoeddi'r PSAs newydd a'r cytundebau gweithredu a fydd yn gysylltiedig â nhw.

FFRWD WAITH	ASESIAD O'R EFFAITH	Y SEFYLLFA GYFREDOL / CAMAU I'W CYMRYD
1. GWAHANIAETHU O FEWN RHYCHWANT Y TROSEDDAU		
Ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau mynych	**Perthnasol**. Am fod ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau mynych yn cael effeithiau gwahanol ar gymunedau sydd o dan wasgfa ac ar y grwpiau lleiafrifol ynddynt, mae hyn yn golygu bod polisïau'r Swyddfa Gartref ar fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau mynych yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at wella bywydau cymunedau BME. Rydym hefyd yn annog asiantaethau i ddefnyddio offer a phwerau ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBOs) a gwaharddebau ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel ffordd i fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol sydd wedi'i dargedu ar grwpiau BME. Ceir rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod y rhai ag anableddau yn dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau mynych yn anghymesur.	Ymddygiad gwrthgymdeithasol Mae'r canllawiau ar ddefnyddio ASBOs wedi'u diweddaru'n ddiweddar er mwyn tanlinellu mor bwysig yw hi bod asiantaethau lleol yn asesu effaith eu polisïau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar grwpiau BME. Dolen â'r canllawiau: http://www.crimereduction.gov.uk/antisocialbehaviour/antisocialbehaviour55.htm Caiff y polisïau presennol eu hasesu erbyn diwedd Mawrth 2008 er mwyn cymryd i ystyriaeth ganfyddiadau gwaith ymchwil ar faterion hil mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol (sy'n nodi lefelau anghymesur o uchel o'r argraff bod yna ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl BME, yn enwedig y cymunedau Pacistanaidd a Bangladeshi, a bod angen dod o hyd i unrhyw rwystrau sy'n atal pobl BME rhag rhoi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol) yn ein polisïau a'n strategaethau ac er mwyn lleihau'r gwahaniaeth hwn yn yr effeithiau. Rydym wrthi'n diwygio'r canllawiau ar gyfer ardaloedd lleol ac yn gweithio i ddatblygu pecyn cymorth i ymarferwyr sy'n gweithio i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gyfeirio at waith gyda dioddefwyr a thystion. Bydd hyn yn cynnwys cyfeirio at ddyletswydd gyfreithiol cyrff cyhoeddus **o ran y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw yn ogystal â'r ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol.** Disgwylir cyhoeddi'r canllawiau ar offer a phwerau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr Hydref yn 2007, a'r canllawiau ar gyfer dioddefwyr a thystion erbyn mis Mawrth 2008. Troseddau Mynych Mae troseddau mynych iawn megis byrgleriaeth a throseddau cerbydau, er gwaethaf gostyngiadau sylweddol dros y deng mlynedd diwethaf, yn dal yn gyfran arwyddocaol o gyfanswm y troseddau. Gyda pholisïau aeddfed ar waith sydd wedi ennill eu plwyf, mae'r ffocws newydd ar weithio mewn partneriaeth a gweithredu yn lleol neu ar y blaenoriaethau lleol yn arwyddocaol iawn. Cafodd polisïau blaenorol ar droseddau penodol eu hasesu a'u monitro o ran eu heffaith ar gydraddoldeb. Bydd y ffordd newydd o weithio sydd wedi'i nodi yn y strategaeth yn golygu bod partneriaid gweithredol lleol yn cynnal asesiadau strategol cadarn lleol er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau ac anghenion eu cymunedau yn cael eu bodloni a bod anghenion yr amrediad llawn o ddioddefwyr yn cael eu hystyried wrth bennu blaenoriaethau mewn ymdrechion ynglŷn â diogelwch cymunedol. Tystiolaeth http://www.drc-gb.org/newsroom/news_releases/2007/tackling_crime_priority.aspx
Troseddau treisiol	**Perthnasol**	Troseddau Treisiol Rhaglen Atal Troseddau Treisiol – gofynnir i bob Partneriaeth Lleihau Troseddau ac Anhrefn (CDRP) sy'n cymryd rhan yn y rhaglen asesu effaith eu gweithgareddau ar gydraddoldeb fel rhan o'r rhaglen. Adolygir hyn fel rhan o

		broses arfarnu reolaidd. Strategaeth – yr ymagwedd strategol yw edrych ar niwed (i'r gymdeithas yn ogystal ag i'r unigolyn) yn ogystal ag ar y niferoedd. Mae i ba raddau y daw dioddefwyr troseddau treisiol (yn enwedig troseddau casineb, megis troseddau sydd wedi'u gwaethygu ar sail crefydd neu hil) o grwpiau BME yn ffactor niwed ychwanegol a byddwn yn adeiladu cydraddoldeb hiliol i mewn i'n Strategaeth. Mae tan-hysbysu yn fwy cyffredin os yw dioddefwyr troseddau homoffobig, casineb hil neu gasineb ffydd yn fenywod ac felly mae polisïau, rhaglenni ac ymyriadau sydd wedi'u bwriadu i sicrhau bod rhagor o droseddau'n cael eu hysbysu yn helpu i leihau'r anghydraddoldeb rhywedd hwn. Caiff y polisïau presennol eu hasesu erbyn diwedd Mawrth 2008 er mwyn sicrhau bod materion hil ac amrywiaeth yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth Troseddau Treisiol a'r Rhaglen Atal Troseddau Treisiol ac mewn hysbysu cynyddol ar droseddau casineb. Caiff y polisïau ar drais domestig a throseddau rhywiol, sef meysydd y mae nifer anghymesur o fenywod yn dioddef ynddynt, eu hasesu o safbwynt cydraddoldeb fel rhan o'r adolygiad hwnnw.
Troseddau trefnedig a brawychiaeth	**Perthnasol**	Gwyddom fod adrannau o'r gymuned - yn enwedig cymunedau Mwslimaidd - yn pryderu am bwerau atal brawychiaeth. Mae'n bwysig inni roi sylw i'r pryderon hyn, gan fod atal bygythiad brawychiaeth a sicrhau cysylltiadau cymunedol da yn gyd-ddibynnol ac rydym yn parhau i gydweithio'n agos â chymunedau i'w sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gorfodi mewn ffordd briodol a chymesur. Sefydlodd Cynllun Cydraddoldeb yr Asiantaeth Troseddau Trefnedig Difrifol fframwaith lle mae materion cydraddoldeb yn cael eu plannu ym mhob proses strategol ar gyfer cynllunio, datblygu polisïau a threfnu. Dolen â Chynllun Cydraddoldeb SOCA http://www.soca.gov.uk/downloads/SES2006-2009.pdf
2. YMAGWEDD O BEN I BEN AT FYND I'R AFAEL Â THROSEDDAU A'R CYMHELLION TRAWSBYNCIOL		
Ymyrryd yn gynnar	**Perthnasol**	Bydd y polisiau presennol yn y DCSF (Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd) a'r YJB sydd o fewn y maes gwaith hwn eisoes wedi'u hasesu o ran cydraddoldeb wrth gael eu datblygu. Asesir darnau newydd o waith o safbwynt eu heffaith ar gydraddoldeb wrth gael eu datblygu. Enghreifftiau o'r polisïau presennol: **Youth Matters:** http://www.dfes.gov.uk/consultations/downloadableDocs/Youth%20mattters%20pdf.pdf
Atal drwy gyfrwng y sefyllfa	**Amherthnasol.** Does dim tystiolaeth i awgrymu y caiff polisïau 'dylunio yn erbyn troseddau' effaith ar faterion cydraddoldeb.	Er nad yw'n uniongyrchol berthnasol, mae'n werth nodi bod y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud ar atal drwy gyfrwng y sefyllfa, yn enwedig ynghylch 'lleoedd diogelach' e.e. gosod gatiau ar lonydd cefn, wedi cael effaith gadarnhaol ar bob agwedd ar y gymuned leol. http://www.communities.gov.uk/pub/724/SaferPlacesThePlanningSystemandCrimePrevention_id1144724.pdf
Gorfodi	**Perthnasol**	Mae dogfen bolisi'r Swyddfa Gartref 'Rebalancing the Criminal Justice System In Favour of the Law-Abiding-Majority', a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2006, yn datgan bod gennym system ar hyn o bryd lle mae'r rhai o grwpiau ethnig penodol yn anghymesur o fwy tebyg o gael eu harestio, eu collfarnu am drosedd difrifol, a'u carcharu. Mae'n ei gwneud yn glir bod rhaid i ran o'r gwaith ail-gydbwyso fod o blaid y mwyafrif sy'n parchu'r

		gyfraith, ond gan sicrhau hefyd nad oes annhegwch annatod sydd wedi'i seilio ar hil, credo neu liw. Dolen â'r ddogfen bolisi: http://www.homeoffice.gov.uk/documents/CJS-review.pdf/CJS-review- Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Hil sy'n cyd-fynd â'r ddogfen bolisi yn tanlinellu camau a allai gael goblygiadau ar gyfer cydraddoldeb hiliol ac mae'n cyfeirio at set o gamau ar gyfer gwaith yn y dyfodol o ganlyniad iddi. Mae hefyd yn tanlinellu polisïau sydd eisoes wedi'u hasesu fel rhan o bolisïau neu ddeddfwriaeth flaenorol. Dolen â'r REIA: http://www.homeoffice.gov.uk/documents/CJS-review.pdf/CJS-REIA.pdf?view=Binary
Lleihau ail-droseddu	**Perthnasol**	Caiff EIA ei gynnal cyn y strategaeth newydd ar leihau aildroseddu, sydd i'w lansio yn yr hydref yn 2007.
Camddefnyddio cyffuriau	**Perthnasol**	Bydd Strategaeth Gyffuriau newydd yn dechrau yn Ebrill 2008 a bydd tîm prosiect yn gweithio i'w datblygu rhwng Ebrill a diwedd 2007. Caiff Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei gynnal fel rhan o lunio'r strategaeth newydd.
Camddefnyddio alcohol	**Perthnasol.** Mae materion hil ac amrywiaeth wedi'u hystyried yn y Strategaeth Alcohol. Mae'r mesurau alcohol yn y Mesur Lleihau Troseddau Treisiol yn rhan o'r Strategaeth bresennol ac mae eu heffeithiau gwahanol ar grwpiau BME wedi'u harchwilio a barnwyd eu bod yn annhebyg iawn. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod grwpiau BME yn yfed llai na'u cyfoedion gwyn a bod y rhan fwyaf o'r mesurau, sydd wedi'u targedu ar yfed direolaeth a mangreoedd manwerthu masnachol sy'n gweini alcohol iddyn nhw, yn llai tebyg o effeithio arnyn nhw.	Mae'r Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol wedi'i chyhoeddi. Mae materion hil ac amrywiaeth wedi'u cynnwys ynddi. http://www.homeoffice.gov.uk/documents/Alcohol-strategy.pdf?view=Binary
3. GWIREDDU A GALLUOGI: FFORDD NEWYDD O WEITHIO		
Partneriaeth	**Perthnasol**	Creu canol llai o faint a mwy strategol, gan ddatganoli'r cyfrifoldeb dros weithredu i staff y rheng flaen a fframwaith newydd o atebolrwydd rhwng y canol a'r canghennau gweithredol. Cyfle i sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn y fframwaith newydd. Camau i sicrhau bod EIAs yn cael eu cynnal wrth i'r drefniadaeth newydd gael ei chynllunio a'i sefydlu.
Atebolrwydd	**Perthnasol**	Yn ychwanegol at yr adolygiad manwl o'r ddarpariaeth ar gyfer partneriaeth yn Neddf Troseddau ac Anhrefn 1998, fel y'i cyhoeddwyd yn Neddf Diwygio'r Heddlu 2002, bydd darpariaethau Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder yn datrys nifer o anawsterau sydd ar hyn o bryd yn wynebu'r CDRPs, sydd yn y gorffennol wedi arwain at eu gwyro

		oddi wrth waith i leihau troseddau lleol ac i wella diogelwch cymunedau. Ni fydd **newidiadau yn rôl a** swyddogaethau'r CDRPs yn effeithio ar gyfle cyfartal nac ar gysylltiadau hiliol da. Bydd rôl newydd Pwyllgorau Craffu a Throsolygu'r awdurdodau lleol, wrth ymdrin â diogelwch cymunedau, yn golygu ymhlith pethau eraill y byddant mewn sefyllfa i helpu i fonitro materion cydraddoldeb hil ar draws gwaith y CDRPs. Mae **creu mecanwaith i alluogi cymunedau lleol i sicrhau bod yr heddlu a phartneriaid diogelwch cymunedol yn cymryd camau** pan fyddan nhw wedi methu â datrys problem benodol drwy eu cynghorydd ward yn golygu bod llai o risg o waethygu tyndra yn y gymuned os bydd hyn yn arwain at weld mwy o adnoddau yn y naill ardal na'r llall. Mae rheoliadau i nodi cynnwys y safonau cenedlaethol newydd ar gyfer y CDRPs yn cael eu drafftio ar hyn o bryd: bydd canllawiau ar sut i roi'r safonau newydd ar waith yn dilyn yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Bydd y safonau newydd yn gosod gofyniad ar y CDRPs i sicrhau barn y gymuned leol wrth bennu blaenoriaethau eu hymdrechion i leihau troseddau a lleihau camddefnyddio sylweddau. Dolen â'r fân wefan Partneriaethau: http://www.crimereduction.gov.uk/regions/regions00.htm
Trefniadaeth a phartneriaethau effeithiol	**Perthnasol**	Mae troseddau ac anhrefn yn debyg o effeithio ar rai grwpiau yn fwy na'i gilydd. Mae pobl ifanc, pobl o hil gymysg ac Asiaid ifanc yn wynebu mwy o risg o ddioddef troseddau na grwpiau eraill. (Mae hyn yn arbennig o wir gan fod disgwyl i'r niferoedd yn y grwpiau olaf hyn gynyddu'n sylweddol yn y dyfodol). Mae pobl ddu bum gwaith yn debycach - ac Asiaid ddwywaith yn debycach - o gael eu llofruddio na phobl wyn. Yn ychwanegol, cododd nifer y troseddau o drais, aflonyddu a difrod troseddol a gofnodwyd fel rhai wedi'u gwaethygu ar sail hil yn 2003/04. Mae yna gynrychiolaeth anghymesur hefyd gan grwpiau BME ym mhob rhan o broses y System Cyfiawnder Troseddol. Mae cyflwyno'r Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwell Plismona hefyd yn bwysig o ran sicrhau gwell system cyfiawnder troseddol. Yn ôl ein hasesiad ni, drwy sicrhau bod y Gwasanaeth Heddlu'n mabwysiadu ffyrdd mwy effeithiol o gasglu cudd-wybodaeth ac ymateb i anghenion dinasyddion, fe ddylai'r NPIA gael effaith gadarnhaol ar brofiad pob dinesydd ac, yn benodol, ar brofiad dinasyddion BME o'r system cyfiawnder troseddol.